

Cred mewn tywyllwch Francisco Rodríguez: In the night we believe gan/by Dylan Huw

For most of the 20th century's first half, the cluster of redbricks that is now Chapter Arts Centre housed a secondary school, Canton High, nicknamed the Canton Cowsheds for its previous life as a slaughterhouse. The site has been many things, its history as busy as the building was daily until recent events took over. The Chilean painter Francisco Rodríguez-stimulated by the space's unlikely pre-history in his first time exhibiting in Wales - has used his exhibition to resurrect some of the venue's past lives. In doing so, his works bring the location's capacity for shapeshifting – a prominent theme in all Rodríguez's work – to light.

My last visit to Chapter was to try to finish this very text. Rodríguez was mid-install, and the simmer of our collective hysteria around the coming plague was rising to boiling point. I've deleted most of what I wrote then, as it felt a little like a relic from a different chapter in history. Already as Rodríguez' work was being installed, it seemed clear that the pandemic would lay bare the troubling incoherence of our civilising structures, and the shakiness of our methods of sharing public space. That brief window, when we were still social but suspicious of each other, prone to elbow-handshakes and paranoiac chit-chat, feels like many lifetimes gone. The small-talk and sense of numbed insecurity which filled Chapter then – when we knew the virus' name but not its nature – felt like a generative setting for Rodríguez' paintings. The title of his exhibition, In the night we believe, seemed

Am fwyafrif hanner cynta'r ganrif ddiwethaf, roedd y clwstwr o adeiladau sydd nawr yn gartref i Chapter yn ysgol uwchradd, Canton High, a elwid y Canton Cowsheds oherwydd ei bywyd blaenorol fel lladd-dy. Mae'r gofod - sydd bellach yn gweithredu fel calon bywyd celfyddydol ein prifddinas - wedi bod yn sawl peth yn ystod ei hanes. Wedi ei ysgogi gan gynfywydau annhebygol y safle ar yr achlysur cyntaf iddo arddangos ei waith yng Nghymru, mae'r paentiwr Francisco Rodríguez wedi defnyddio'i arddangosfa Celf yn y Bar i atgyfodi rhai o gynhanesion y ganolfan. Mae'r gweithiau ar ddangos yn amlygu gallu'r safle i'w drawsnewid ei hun – thema ganolog i holl waith Rodríguez.

Roedd fy ymweliad diwethaf â Chapter yn ymweliad i geisio gorffen sgwennu'r testun hwn. Roedd Francisco ar ganol gosod yr arddangosfa, a roedd ein hysteria cynyddol ynghylch yr haint oedd ar ein trothwy yn cyrraedd y berw. Dwi wedi dileu'r rhan fwyaf o'r hyn sgwennais i ym mis Mawrth; roedd yn teimlo ychydig fel ffosil o bennod wahanol yn ein hanes. Yn barod, wrth i'r arddangosfa gael ei gosod, roedd yn glir y byddai'r pandemig yn amlygu anghydnawsedd y strwythurau ry'n ni'n eu defnyddio i wneud synnwyr o fywyd, a pha mor fregus yw'n ffyrdd o rannu gofod. Mae'r ffenest honno o amser, pan oedden i gyd yn dal i fod yn greaduriaid cymdeithasol ond yn amheus o'n gilydd, gan gyffwrdd penelin yn hytrach nag ysgwyd llaw a'n cleber gwag yn bradychu'n paranoia, yn teimlo fel pe bai'n perthyn i oes wahanol. Roedd y siarad mân a'r

already to take on some more emphatic meaning. As I write, the building has been shut to the public for two months, and Rodríguez's paintings have had nothing but the inanimate emptiness of Chapter's café-bar for an audience.

The shadowy figures who populate this fierce body of work would appreciate their altered setting, I think. They would relish the dimness, and the quiet, and the sense of there being some unfinished business. In Rodríguez' pictures, outlines are heavy, and shadows are stark. Violence feels somehow omnipresent but obscured, if it is visible at all. Assembled on top of each other and making the most of the exhibition space's full length, In the night we believe feels like more than a presentation of the artist's recent paintings; it feels like a sited history all scraped-together in playful strokes, on view, now, to no-one. Rodríguez' paintings are imbued with a sense of darkness, not so much in their actual composition but in the condition they convey; a darkness which feels as if it might encompass light and play and gleeful rebellion, as well as badness, and nothingness. I got a sense of the ghostly from them long before their context rendered them actual ghost images.

This ghostliness is shot through with a playful, scrapbook-like quality, a youthful exuberance, a bedroom-wall kind of bravado, which only makes the sinister sense of there being some untold terror at bay all the starker. The exhibition's fragmentation overwhelms, to begin, but does not intimidate; the presentation evokes doodles scratched in a school desk, or scraps of imagery pritt-sticked on to a locker. Dotted among the paintings is the familiar anti-establishment

ansicrwydd dideimlad oedd yn llenwi Chapter bryd hynny – pan wyddem enw'r feirws ond nid ei natur – yn teimlo eisoes fel cyd-destun addas i baentiadau Rodríguez. Magodd teitl ei arddangosfa, In the night we believe, arwyddocâd dyfnach. Wrth i mi sgwennu hwn, mae'r adeilad wedi bod ar gau ers dau fis, a'r paentiadau heb gynulleidfa ond gwacter y caffi-bar.

Byddai'r ffigurau cysgodlyd sy'n llenwi'r corff ffyrnig hwn o waith yn gwerthfawrogi eu cyd-destun newydd, dwi'n meddwl. Byddent yn ymhyfrydu'n y tywyllwch, a'r distawrwydd, a'r ymdeimlad bod yna rywbeth ar ei hanner. Yn narluniau Rodríguez mae amlinellau'n drwm, a chysgodion yn llwm. Mae trais fel petai'n hollbresennol, ond ran amla'n anweledig. A'r darnau wedi eu gosod y naill ar ben y llall gan wneud yn fawr o hyd a lled y gofod arddangos, mae In the night we believe yn teimlo fel mwy na chyflwyniad o baentiadau diweddar yr artist; mae'n teimlo fel hanes gofodol, wedi ei lynu ynghyd gan strociau chwareus, sy'n cael ei arddangos, nawr, i neb. Yn y paentiadau ceir ymdeimlad o dywyllwch – nid yn eu cyfansoddiad ond yn y cyflwr y maent yn ei gyfleu: tywyllwch sydd fel pe gallai gwmpasu goleuni a gorfoledd a chwarae, ynghyd â gwacter, a dimbydedd. I mi, roedd rhywbeth drychiolaethol yn eu cylch ymhell cyn i'w cyd-destun droi'r delweddau yn ddrychiolaethau gwirioneddol.

Law yn llaw â'r ymdeimlad ysbrydaidd hwn mae ansawdd mwy chwareus – mae'r arddangosfa'n ymdebygu i ddwlls ar wal stafell wely neu ddesg ysgol, neu sgrapiau o ddelweddau wedi eu pritt-stickio ar ddrws locer – sy'n gwneud yr ymdeimlad bod yna ryw dywyllwch hollbresennol ar droed yn finocach fyth. Ymhlith y paentiadau mae'r

refrain ACAB, that mirrors the graffiti on Chapter's neighbouring streets. Such spontaneous flourishes betray the paintings' delicate balance between light and dark, danger and play.

The same words tend to come up in discussions of Rodríguez' work: "mysterious", "cinematic", "austere", "dreamlike", "otherworldly", "sinister", "eerie". I have always struggled with the term "cinematic", in particular, as a descriptor for works of painting or sculpture, but given the debt of Rodríguez' visual vocabulary to grammars of cinema and graphic storytelling, it seems an apt way in to looking at his work. Those who populate his paintings – wild-west outlaws, figures framed from behind or in shadows, outsiders given to dirty looks – lend them a narrative vibrancy, which can make it feel futile to consider them as isolated individual works. The paintings feel possessed by a certain sense of animation, of being propelled forward by each other, of being both still and, somehow, in vivid motion. In smaller, figureless pieces like *Twin Sun* and *Summer* – among the sweeter offerings on show and also where Rodríguez' debt to Japanese artistic traditions comes through most clearly – even the brightest colours feel ominous.

In a bout of just-prepandemic melancholia, I sought comfort in the clean black lines Rodríguez painted directly on to the café-bar wall, which in their current context only serve to amplify the eeriness of his magic-realist tableaux. I have been thinking about those elbow-bumps of early March a lot as I've returned to his work – how juvenile our constant

llythrennau ACAB yn cael eu hailadrodd, yn debyg i'r graffiti gwrthsefydliadol sydd i'w weld ar rai o'r strydoedd gerllaw'r ganolfan. Mae cyffyrddiadau digymell fel rhain i'w gweld drwy'r arddangosfa, sy'n ychwanegu llawer at y berthynas gymleth yn y paentiadau rhwng tywyllwch a goleuni, perygl a chwarae.

Mae'r un geiriau'n tueddu i ymddangos yn y drafodaeth ar waith Rodríguez, gan gynnwys 'sinematig', gair dwi'n ei chael hi'n anodd ei dderbyn yn ddigwestiwn. Ond mae dyled geirfa weledol y paentiwr i ramadeg ffilm a storïau graffeg yn ei gwneud yn ffordd gynhyrchiol o drafod ei waith. Mae'r ffigurau'n ei luniau – dynion wedi eu fframio o'r cefn neu gan gysgodion, ffigurau 'arall' ac amrynt olwg gas – yn rhoi egni naratifol iddynt, sy'n ei gwneud yn anodd weithiau i ystyried y paentiadau fel lluniau unigol, tu hwnt eu cyflwyniad fel un darlun ehangach. Mae ymdeimlad o fod wedi eu hanimeddio yn eu nodweddu, fel pe baent yn cael eu gyrru 'mlaen gan ei gilydd, yn luniau llonydd ond hefyd, rywsut, yn symudol. Mewn darnau llai fel *Twin Sun* a *Summer*, sydd ymhlith gweithiau mwy tyner yr arddangosfa, mae hyd yn oed y lliwiau mwyaf llachar yn argoelus.

Mewn pwl o felancolia cyn-bandemig, chwiliais am gysur yn y llinellau glân du a baentiodd Rodríguez ar wal y caffi-bar, llinellau sydd, yn eu cyd-destun presennol, ond yn chwyddo'r ymdeimlad anghysurus sydd i'w *dableaux* hud-realidd. Dwi wedi dychwelyd at ein bymops-penelin ym mis Mawrth wrth i mi ddychwelyd i'r gwaith – dyna blentynnaidd, rywsut, mae'n hoffter o fframwaith 'dystopia' yn ymddangos bellach – a sut, trwy fywiogrwydd golygfeydd

invocations of 'dystopia' feel now – and about how, via the vividness of Rodríguez' scenes, the past lives of the place seem to come alive. It is that aliveness I think that I have been holding on to, and that has frequently, in the grey chaos of the last two months, felt very far away.

Rodríguez, y daeth cyn-fywydau'r gofod yn fyw. Credaf mai'r *bywyd* hwnnw dwi wedi bod yn dal gafael arno; y bywyd sydd, ynghanol anhrefn llwyd y deufis diwethaf, wedi teimlo'n bell iawn iawn i ffwrdd.

Dylan Huw is a writer from Aberystwyth now living in Cardiff. He also works in creative development with National Theatre Wales. | Mae Dylan Huw yn sgwennwr o Aberystwyth sydd nawr yn byw yng Nghaerdydd. Mae hefyd yn gweithio yn adran datblygu creadigol National Theatre Wales. [@dylanhuw](#) | dylanhuw.com